


## EGLURO'R DATA: Archwiliad ac ystyriaethau ansawdd data Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamdefnyddio Sylweddau (WNDSM)

 Data Report



### Awduron:

Ryan Phillips<sup>1</sup>, Ian Farr<sup>2</sup>, Columbus Ohaeri<sup>1</sup>, Hywel T Evans<sup>2</sup>, Grace Bailey<sup>2</sup>, Josh Dixon<sup>3</sup>, Josie Smith<sup>1</sup>

### Cysylltiadau:

1. Gwyddor Data Poblogaeth, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, Abertawe
2. Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Capital Quarter, Caerdydd, Y Deyrnas Unedig
3. Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd

### Cydnabyddiaethau:

Mae'r Mewnwelediad Data hwn yn gyhoeddiad ar y cyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymchwil Data Gweinyddol Cymru, Banc Data SAIL a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r rhaglen Gwell Canlyniadau trwy Ddata Cysylltiedig (BOLD). Mae BOLD yn rhaglen drawslywodraethol a ariennir gan Drysorlys EM (2021-2025) a gynlluniwyd i ddangos sut y gellir cefnogi pobl ag anghenion cymhleth yn well trwy gysylltu a gwella data'r llywodraeth a gedwir arnynt mewn ffordd ddiogel.



## Tabl cynnwys

Cefndir .....	3
Cyflwyniad.....	3
Strwythur y set ddata.....	5
Cyfyngiadau data .....	8
Goblygiadau ar gyfer ymchwil sy'n defnyddio'r data hyn.....	16
Argymhellion.....	18
Cyfeiridau .....	19
Ymwadiad.....	20



## Cefndir

Mae'r adroddiad Egluro'r Data yn crynhoi'r cynnwys a'r cyfyngiadau posibl i ddefnyddwyr set ddata Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM). Dyma'r set ddata sylfaenol sy'n ymwneud ag unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio, eu hasesu a/neu sy'n cael triniaeth mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol yng Nghymru.

Nod y papur hwn yw rhoi arweiniad i ymchwilyr sydd â diddordeb mewn defnyddio set ddata WNDSM i ymchwilio i rôl neu effaith y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau trin pobl sy'n camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Cynhyrchwyd yr adroddiad Egluro'r Data hwn gan ymchwilyr sy'n cydweithio yn lechyd Cyhoeddus Cymru, YDG Cymru a thîm SAIL ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad Egluro'r Data hwn wedi'i hadolygu gan gydwethwyr lechyd Cyhoeddus Cymru, YDG Cymru a SAIL gyda dealltwriaeth ychwanegol gan arweinwyr WNDSM yn lechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) sydd ag arbenigedd yn y maes thematig hwn a derbynnir ei bod yn gywir o safbwynt Egluro'r Data ar adeg ei chyhoeddi.

Mae'r adroddiad Egluro'r Data hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth a gynhaliwyd fel rhan o Gynllun Peilot BOLD ar gyfer Dangos Camddefnyddio Sylweddau (Cam 1) yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar ansawdd data WNDSM. Mae rhagor o wybodaeth am raglen BOLD ar gael yma: [Canlyniadau Gwell Trwy Ddata Cysylltiedig \(BOLD\)](#)

## Cyflwyniad

Mae camddefnyddio sylweddau, y defnydd rheolaidd o alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon sy'n achosi niwed corfforol neu seicolegol<sup>1</sup> yn her iechyd y cyhoedd ac mae angen data dibynadwy i ymateb yn effeithiol. Gall unigolion sy'n defnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon, ofyn am gyngor, cymorth ac ymyriadau triniaeth trwy amrywiaeth o wasanaethau camddefnyddio sylweddau sy'n ceisio darparu cymorth cyfrinachol a hygyrch i leihau'r niwed a achosir gan gyffuriau ac alcohol i unigolion, teuluoedd a'r gymuned. Yng Nghymru, mae data lefel unigol y rhai sy'n dod i gael triniaeth yn cael eu casglu trwy fewnbynnau misol o fewn Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru (WNDSM). Gellir cael copi o'r set ddata hon yn y Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) (<https://saildatabank.com/>), y cyfeirir ati yma wedi hyn fel Set Ddata Camddefnyddio Sylweddau (SMDS).<sup>2</sup>

Sefydlwyd SMDS ar 1 Ebrill 2005, ac mae'n cynnwys data arferol a gyflwynir gan bob darparwr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru sy'n derbyn cyllid



gan Lywodraeth Cymru ac fe'i crynhoir gan lechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) i'w hadrodd. Mae'r data hyn yn cynnwys nodweddion demograffig-gymdeithasol a gallant gipio sawl digwyddiad a all ddigwydd yn ystod taith cleient gan gynnwys nodweddion diagnostig fel maint ac amllder y defnydd o sylweddau, ymyriadau triniaeth a chanlyniadau a fesurir gan Broffiliau Canlyniadau Triniaeth (TOPs). Defnyddir TOPs i werthuso effeithiolrwydd ymyriadau i drin pobl sy'n camddefnyddio sylweddau. Yng Nghymru, defnyddir data ar gyfer trin pobl sy'n camddefnyddio sylweddau ar gyfer cynllunio, ymchwil a gwneud penderfyniadau polisi. O'r herwydd, mae angen archwilio ac asesu ansawdd data er mwyn sicrhau darlun cywir.

Yn 2006, cyflwynodd Llywodraeth Cymru adolygiadau ffurfiol o berfformiad gwasanaethau i drin pobl sy'n camddefnyddio sylweddau (ac fe'i hadnewyddwyd yn 2016/17). Caiff gweithgarwch a chanlyniadau gwasanaethau eu monitro yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol (DPA). Mae DPAau ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas ag amseroedd aros, cyfraddau ymgysylltu, gostyngiad mewn hunan-adrodd o ran defnyddio sylweddau, gwell ansawdd bywyd a nifer y cleientiaid sydd wedi cwblhau triniaeth, yn benodol:

- 1) Mae "Ni wnaeth <20% fynychu ar ôl yr asesiad" yn mesur y rhai sy'n cael eu hasesu ac yna'n rhoi'r gorau i fynychu triniaeth heb gael eu dosbarthu fel rhai sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus
- 2) Caiff ">80% o amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth" ei ddiffinio fel cael triniaeth o atgyfeiriad o fewn cyfnod o 20 diwrnod
- 3) "Gostyngiad mewn sylweddau problemus rhwng yr adolygiad cychwynnol a'r adolygiad diweddaraf/TOP ymadael" (targed  $\geq 86.5$ )
- 4) "Mae ansawdd bywyd wedi gwella rhwng yr adolygiad cychwynnol a'r adolygiad diweddaraf/TOP ymadael" (targed  $\geq 84.2$ )
- 5) "Canran yr achosion sydd wedi'u cau gan fod triniaeth wedi'i chwblhau" (targed  $\geq 76.9$ ).

Yn ystod y degawd diwethaf, mae nifer yr unigolion sy'n cychwyn triniaeth camddefnyddio sylweddau wedi gostwng, tra bod nifer y marwolaethau yn ystod triniaeth wedi cynyddu ledled Cymru a Lloegr.<sup>3</sup> O ystyried hyn, yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth y DU strategaeth cyffuriau 10 mlynedd.<sup>4</sup> Fel rhan o hyn, nodwyd yr angen brys i amcangyfrif yr effaith y mae triniaeth camddefnyddio sylweddau arbenigol yn ei chael ar niwed sy'n gysylltiedig â sylweddau. Er mwyn cyflawni hyn, cynigiwyd y gellid cysylltu data camddefnyddio sylweddau i wella'r wybodaeth sydd ar gael.<sup>5</sup> Cafodd hyn ei gyflawni drwy raglen beilot gan y Llywodraeth, Canlyniadau Gwell trwy Ddata Cysylltiedig (BOLD), rhaglen drawslywodraethol pedair blynedd a ariennir gan Drysorlys EF dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac fe'i cynlluniwyd i ddangos sut y gellir cynorthwyo pobl ag anghenion cymhleth yn well trwy gysylltu a gwella data a gedwir mewn ffordd ddiogel, gyda'r nod o wella



canlyniadau bywyd trwy asesu anghenion unigolion.<sup>6</sup>

Mae'r SMDS yn cynrychioli set ddata allweddol yn rhaglen ymchwil BOLD Camddefnyddio Sylweddau Cymru. Roedd cynllun peilot Camddefnyddio Sylweddau Cymru yn brosiect cydweithredol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, banc data SAIL, YDG Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen BOLD ar gael yma: [Canlyniadau Gwell Trwy Ddata Cysylltiedig \(BOLD\)](#)

Mae'r adroddiad Egluro'r Data hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth a gynhaliwyd fel rhan o Gynllun Peilot BOLD ar gyfer Dangos Camddefnyddio Sylweddau (Cam 1) yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar faterion ansawdd data yng Nghronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM) ac sy'n cefnogi ac yn llywio holl brosiectau ymchwil eraill BOLD Cymru.

## Strwythur y set ddata

Gan ddefnyddio Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ar gyfer yr astudiaeth, gwnaethom nodi pob cofnod o'r SMDS rhwng 2010 a 2022. Rhennir data yn ddigwyddiadau, gydag asiantaethau cyffuriau ac alcohol yn cyflwyno'r digwyddiadau sy'n berthnasol i'r unigolion. Bydd gan unigolyn uchafswm o un digwyddiad cleient ac atgyfeirio, un digwyddiad asesu, ac un digwyddiad diwedd cyswllt, tra gall fod triniaethau lluosog a/neu TOPau.

Mae'n bosibl na fydd unigolyn yn cael yr holl ddigwyddiadau a restrir oherwydd gall roi'r gorau iddi, e.e. os bydd yn gadael cyn triniaeth ni fydd unrhyw ddigwyddiad triniaeth. Gellir olrhain taith driniaeth cleient unigol trwy'r tablau data hyn gan ddefnyddio'r maes ALF a SUBSTANCEMISUSEREF\_ID. Mae'r maes hwn yn cynnwys rhif adnabod sy'n benodol i gyfnod penodol o driniaeth ac fe'i defnyddir i ddilyn cleient o'r atgyfeiriad i'r asesiad i driniaeth a rhyddhau.

Ym mis Ebrill 2014, diweddarwyd y setiau data a'r diffiniadau data; mae data hanesyddol cyn y dyddiad hwn ar gael yn y tabl 'Hanesyddol', er bod y chwe endid sy'n weddill yn cynnwys data cyn ac ar ôl Ebrill 2014 hefyd. Mae'r saith set ddata SMDS wedi'u rhestru isod.

Trwy adnabod unigolyn, mapiwyd llwybr pob cyfnod o driniaeth, a lle digwyddodd sawl cyfnod o driniaeth i un unigolyn, mapiwyd y rhain dros amser.

Yn SAIL, rhoddir dyfais adnabod unigryw i bob unigolyn, a elwir yn Faes Cyswllt Dienw (ALF). Yn gryno, mae'r ALF yn caniatáu cyswllt ar draws sawl set ddata. Yn unol â llenyddiaeth flaenorol, dim ond unigolion a oedd yn cydweddu'n benderfyniaethol neu'n debygoliaethol  $\geq 0.9$  sydd wedi'u cynnwys.



Y saith set ddata SMDS a nodwyd oedd:

**Cleient:** Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â manylion y cleient. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ddemograffig fel ethnigrwydd, rhyw ac oedran, yn ogystal â gwybodaeth atgyfeirio sy'n caniatáu i gleientiaid gael eu dilyn trwy gydol eu taith driniaeth.

**Atgyfeiriadau:** Gall atgyfeiriadau weithredu ar 'system atgyfeirio agored', lle gall unigolion gysylltu â gwasanaethau'n uniongyrchol i gael asesiad, cyngor a chymorth cychwynnol. Fel arall, gall y system cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol, teulu neu ffrindiau, neu unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n cynorthwyo unigolyn wneud atgyfeiriad.

Mae newidynnau yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol fel amseroedd aros, yn ogystal â gwybodaeth ddemograffig fel oedran atgyfeirio, rhyw ac ethnigrwydd, gwybodaeth atgyfeirio gan gynnwys dyddiad atgyfeirio, ffynhonnell atgyfeirio a chod asiantaeth.

**Asesiad:** Dylai'r asesiad sefydlu natur a difrifoldeb y defnydd o sylweddau; archwilio'r rheswm/rhesymau dros eu defnyddio; asesu effaith defnyddio sylweddau ar eu gweithrediad corfforol, seicolegol a chymdeithasol; a sefydlu pa gymorth sydd ar gael gan deulu a ffrindiau

Mae'r newidynnau a gasglwyd yn cynnwys:

- Sylwedd problemus
- Statws chwistrellu
- Cyfrifoldeb rhiant a nifer y plant sy'n byw ar yr aelwyd (os yw'n berthnasol)
- Triniaeth flaenorol ar gyfer defnyddio sylweddau
- Angen presennol am lety
- Derbyn gofal ar hyn o bryd gan wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol neu eilaidd

### **Triniaethau**

Mae dulliau/myriadau triniaeth y mae cleient yn eu derbyn fel rhan o'i daith driniaeth wedi'u dogfennu yma. Mae dau ddull gwahanol: dull strwythuredig a dull llai strwythuredig. Mae newidynnau eraill yn cynnwys dyddiad atgyfeirio dull (ymgysylltiad y cytunwyd arno â'r dyddiad ymyrryd), dyddiad dechrau a gorffen y dull, a statws ymadael â'r dull:

- **Ymadael wedi'i gynllunio** - mae unigolyn wedi cwblhau fel y nodir yn y cynllun triniaeth, wedi'i atgyfeirio at wasanaeth arall neu wedi symud i ragnodi dan arweiniad meddyg teulu
- **Ymadael heb ei gynllunio** - lle tynnir triniaeth yn ôl gan y darparwr am un o'r



rhesymau canlynol:

- Ddim wedi mynychu nac ymateb i gyswllt dilynol
  - Symud o'r ardal
  - Yr unigolyn wedi'i gadw yn y ddalfa/carchar
  - Yr unigolyn wedi marw
  - Yr unigolyn wedi gwrthod triniaeth

### **Proffiliau Canlyniadau Triniaeth (TOPau)**

Mae TOPau yn cael eu cwblhau ar ddechrau'r driniaeth, yn cael eu hadolygu bob deuddeg wythnos, ac yn cael eu cwblhau eto ar y diwedd. Yng Nghymru, mae'n ofynnol i bawb sy'n derbyn triniaeth sy'n 16 oed neu'n hŷn, gael TOPau. Mae'r TOPau yn asesu saith gwahanol ddull:

1. Dadwenwyno cleifion mewnol
2. Rhagnodi arbenigol
3. Rhagnodi gan feddygon teulu
4. Ymyrraeth seicogymdeithasol
5. Rhaglen diwrnod strwythuredig
6. Adsefydlu mewn cyfleusterau preswyl
7. Ymyrraeth strwythuredig 'arall'.

Mae'r data canlynol ar gael:

- Dyddiad cyfweiliad a cham y driniaeth TOP (dechrau, adolygu, ymadael neu ôl-driniaeth);
- Nifer y diwrnodau:
  - defnyddio sylweddau (crac, opioidau, ac ati.) a chwistrellu (os yw'n berthnasol)
  - dwyn o siopau
  - gwerthu cyffuriau
  - ymgymryd â gwaith cyflogedig
  - mynychu coleg neu Ysgol
- Iechyd corfforol, seicolegol canfyddedig ac ansawdd bywyd wedi'i raddio ar raddfeydd o 0 (gwael) i 20 (da).
- Baneri Ie/Na sy'n edrych ar statws troseddau, statws ymosodiadau/trais, problem dai frys, risg o droi allan.

### **Cyswllt wedi dod i ben (rhyddhau)**

Mae'r set ddata hon yn cynnwys y dyddiad a'r rheswm y daeth y cyswllt i ben.

### **Data hanesyddol**



Mae'r tabl hwn yn cynnwys data hŷn cyn mis Ebrill 2014 (cyn gweithredu'r diffiniadau diwygiedig a ddefnyddir nawr yn SMDS). O ganlyniad, mae newidynnau gwahanol o'r cyfnod amser ar gael. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddefnyddio sylweddau, gan gynnwys amser yn defnyddio.

## Cyfyngiadau data

### Poblogaeth yr astudiaeth

At ddibenion y dadansoddiad a adroddir yma, defnyddiwyd carfan i ddisgrifio'r data SMDS lefel unigol cyffredinol. Nodwyd cyfanswm o 299,058 o atgyfeiriadau yn cynnwys 103,203 o unigolion yn y data SMDS rhwng 01/01/2010 a 01/09/2022.

Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r prif broblemau gydag ansawdd data a brofwyd wrth ddadansoddi gyda'r set ddata ar gyfer camddefnyddio sylweddau:

### Problem Ansawdd Data 1: Data cyfnod triniaeth yn bresennol ond y rheswm ymadael yn nodi dim triniaeth<sup>1</sup>

Mae cyfanswm o 12 canlyniad posibl ar gyfer cyfnod o driniaeth, mae'r rhain wedi'u cofnodi yn y tabl SMDS\_CONTACT\_ENDED ac maen nhw fel a ganlyn:

1. **Triniaeth wedi'i chwblhau – yn rhydd o sylweddau problemus:** Nid yw'r cleient bellach angen ymyriadau triniaeth mwyach ac ym marn y gweithiwr achos nid yw'n defnyddio unrhyw un o'r sylweddau problemus a adroddwyd ar gyfer y cleient.
2. **Triniaeth wedi'i chwblhau:** Mae'r cleient wedi cyrraedd ei nod(au) o ran triniaeth fel y cytunwyd ar ddechrau'r driniaeth.
3. **Triniaeth wedi'i thynnu'n ôl gan ddarparwr:** Mae'r darparwr triniaeth wedi tynnu'r ddarpariaeth triniaeth i'r cleient yn ôl. Gellid defnyddio'r eitem hon, er enghraifft, mewn achosion lle mae'r cleient wedi torri contract yn ddifrifol sy'n arwain at ei ryddhau. Ni ddylid ei ddefnyddio os yw cleient heb wneud dim mwy na 'gadael'.
4. **Wedi'i atgyfeirio at wasanaeth arall:** Mae cleient wedi gorffen triniaeth yn yr asiantaeth ddarparwr hon ond mae angen triniaeth arno o hyd ac mae'r unigolyn wedi cael ei atgyfeirio at ddarparwr arall camddefnyddio sylweddau ar gyfer hyn. Dim ond os oes llwybr atgyfeirio priodol ar gael y dylid defnyddio'r cod hwn.
5. **Ddim wedi mynychu nac ymateb i gyswllt dilynol:** Mae'r darparwr triniaeth

---

<sup>1</sup> Diwygiwyd set ddata WNDSM yn 2014, felly ni fyddai'r rheswm ymadael wedi bod ar gael ar gyfer cofnodion cyn mis Ebrill 2014.



wedi colli cysylltiad â chleient am 8 wythnos neu fwy heb gynllun rhyddhau ac nid yw ymdrechion i ail-ymgysylltu â'r cleient wedi bod yn llwyddiannus.

6. **Symud o'r ardal:** Mae'r cleient wedi symud o'r ardal ddaearyddol lle mae'n derbyn triniaeth ac nid yw wedi'i atgyfeirio at wasanaeth arall.
7. **Carchar / Wedi'i gadw yn y Ddalfa:** Nid yw'r cleient mewn cysylltiad â'r darparwr triniaeth mwyach gan ei fod yn y carchar neu mewn lleoliad diogel arall.
8. **Wedi marw:** Yn ystod ei amser mewn cysylltiad â'r darparwr triniaeth mae'r cleient wedi marw.
9. **Atgyfeiriad amhriodol:** Cysylltwyd â chleient yn dilyn atgyfeiriad ac mae'n dweud nad yw'n barod i gymryd rhan mewn triniaeth neu pan gafodd ei asesu nad oedd y cleient angen triniaeth camddefnyddio sylweddau.
10. **Nid yw'r cleient yn ymwybodol o'r atgyfeiriad:** Derbyniwyd atgyfeiriad trydydd parti a phan gysylltwyd â'r cleient, nid oedd yn ymwybodol o'r atgyfeiriad.
11. **Cleient wedi gwrthod cychwyn triniaeth:** Mae'r darparwr triniaeth wedi derbyn atgyfeiriad ac wedi cynnal asesiad wyneb yn wyneb cychwynnol gyda'r cleient, ac ar ôl hynny mae'r cleient wedi dewis peidio â chychwyn ymyrraeth triniaeth a argymhellir.
12. **Wedi symud i ragnodi dan arweiniad meddyg teulu (Gofal Sylfaenol):** Mae'r cleient yn derbyn Rhagnodi dan Arweiniad Meddyg Teulu (Gofal Sylfaenol) ac nid yw'n ymwneud mwyach â'r asiantaeth sy'n trin pobl sy'n camddefnyddio sylweddau.

Dylid defnyddio rhesymau diwedd cyswllt 9, 10 ac 11 ar gyfer amgylchiadau lle na ddechreuwyd triniaeth, fodd bynnag, mae 7,744 o gyfnodau o driniaeth lle mae data triniaeth yn bodoli, gan gynrychioli 0.5% o'r holl gyfnodau o driniaeth o fewn y cyfnod astudio. Roedd tystiolaeth glir o amrywiad daearyddol mawr mewn cam-godio mewn perthynas â rheswm ymadael fel y dangosir yn Nhabl 1. Nid yw'n glir o'r set ddata pam mae'r amrywiadau daearyddol hyn mewn cam-godio rhesymau ymadael yn bodoli.



**Tabl 1: Nifer a chanran y 'rheswm ymadael amhriodol' gyda data triniaeth wedi'u cofnodi yn ôl bwrdd iechyd.**

Bwrdd Iechyd	Rheswm ymadael a gofnodwyd wedi'i gamgodio (n)	Canran o gyfanswm triniaeth BI (%)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)	2,270	8.5
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM)	1,735	8
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)	789	6.5
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)	1,653	5.7
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)	268	5.3
Dim bwrdd iechyd wedi'i ddarparu	31	4.2
Arall - Tu allan i Gymru	195	3.1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (BIPCT)	450	2.5
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd)	353	2

### Dulliau Trin

Mae'n gyffredin i gyfnodau triniaeth gynnwys dulliau trin lluosog, a all amrywio o ddulliau llai strwythuredig fel ymyrraeth fer a lleihau niwed i ddulliau mwy strwythuredig fel triniaeth cleifion mewnol yn ogystal ag ymyriadau ffarmacolegol, gan gynnwys rhagnodi triniaeth yn lle opioidau. Felly mae'n bosibl i'r rheswm dros achlysur ymadael amhriodol gynnwys dulliau trin lluosog a allai fod wedi'u cofnodi'n anghywir.



**Tabl 2: Nifer a chanran yr achlysuron rheswm ymadael amhriodol gyda data triniaeth wedi'i gofnodi yn ôl nifer y dulliau.**

Nifer y Dulliau o Roi Triniaeth	Nifer (n)	(%)	Canran (Pob Categori) (%)
1	4,495	7.3	58
2	1,386	5.2	17.9
3	1,536	4.3	19.8
4+	327	2.6	4.2

Roedd o leiaf 13,183 o ddulliau trin unigol wedi'u neilltuo i unigolion â rheswm ymadael anghywir wedi'u cofnodi (Tabl 2).

Cofnodwyd mwyafrif (89.6%) o'r holl resymau ymadael amhriodol ymhlith unigolion sy'n derbyn ymyriadau triniaeth seicolegol (Tabl 3). Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod 10.4% o'r holl resymau ymadael amhriodol a gofnodwyd yn dangos rhagnodi sylweddau a reolir fel methadon neu buprenorphine, naill ai gyda neu heb therapi seicolegol gyda hynny. Mae'r triniaethau ffarmacolegol hyn yn cyfrif am 3-4% o'r holl driniaethau ffarmacolegol a gofnodwyd yn y set ddata.

**Tabl 3: Nifer a chanran y 'rheswm ymadael amhriodol' gyda data triniaeth wedi'i gofnodi yn ôl dosbarthiad y dull**

Dosbarthiad y Dull	Nifer (n)	Canran (%)
Ffarmacolegol	23	3.4
Seicolegol	6936	6.2
Seicoffarmacolegol	785	3.3

**Problem Ansawdd Data 2: Ailatgyfeiriadau ar yr un diwrnod neu'r diwrnod nesaf lle mae triniaeth flaenrol wedi'i 'chwblhau'.**

Mae rheswm diwedd cyswllt "Triniaeth wedi'i chwblhau - rhydd o sylweddau problemus" neu "Triniaeth wedi'i chwblhau" yn cael ei neilltuo lle bernir bod unigolyn wedi cwblhau ei driniaeth yn llwyddiannus. Mae'r diffiniadau diwedd cyswllt yn nodi na fyddai angen triniaeth ar gleient mwyach, ac ni fyddem yn disgwyl gweld ailatgyfeiriadau i driniaeth yn digwydd ar yr un diwrnod neu'r diwrnod nesaf (fel y gallai fod yn wir os yw triniaeth yn aflwyddiannus a bod yr unigolyn yn cael ei atgyfeirio at wasanaeth arbenigol arall).

Os oes angen ymyrraeth driniaeth bellach ar gleient wrth ymadael â thriniaeth, dylai darparwyr triniaeth gofnodi rheswm priodol dros ddod â chyswllt i ben ar gyfer y cleientiaid hyn e.e. "wedi'i atgyfeirio at wasanaeth arall".



Roedd SMDS yn cynnwys cyfanswm o 7,210 o ailatgyfeiriadau yr un diwrnod neu'r diwrnod canlynol yn ystod y cyfnod astudio. O'r rhain mae 1,018 (14.1%) yn dilyn cyfnod 'triniaeth wedi'i chwblhau', ac mae 496 (6.9%) yn dilyn cyfnod 'triniaeth wedi'i chwblhau - yn rhydd o gyffuriau'. Yn ogystal, cofnodwyd 72 o ailatgyfeiriadau yn dilyn cyfnod o driniaeth gyda rheswm diwedd cyswllt o 'ymadawedig' yn nodi bod yr unigolyn wedi marw cyn cwblhau triniaeth (Tabl 4).



**Tabl 4: Nifer a chanran cyfnodau o driniaeth sy'n dod i ben lle cofnodir bod cyfnod arall o driniaeth yn dechrau'r un diwrnod neu'r diwrnod nesaf yn ôl rheswm ymadael â'r driniaeth**

Rheswm ymadael â'r bennod flaenorol o driniaeth	Nifer (n)	Canran o'r holl ailatgyfeiriadau yr un diwrnod/y diwrnod nesaf (%)
Wedi'i atgyfeirio at wasanaeth arall	4,370	60.6
Triniaeth wedi'i chwblhau	1,018	14.1
Ddim wedi mynychu nac ymateb i gyswllt dilynol	603	8.4
Triniaeth wedi'i chwblhau – yn rhydd o sylweddau problemus	496	6.9
Carchar	285	4
Atgyfeiriad amhriodol/Cleient ddim yn ymwybodol o atgyfeiriad	254	3.5
Wedi marw	72	1
Triniaeth wedi'i thynnu'n ôl gan y darparwr	57	0.8
Cleient wedi gwrthod cychwyn triniaeth	40	0.6
Anhysbys	15	0.2

**Problem Ansawdd Data 3: Cwblhau triniaeth yn llwyddiannus pan nad oes unrhyw ymyrraeth triniaeth wedi'i chofnodi.**

Diffinnir cwblhau llwyddiannus o fewn SMDS gan ddefnyddio'r rhesymau diwedd cyswllt (a ddarperir gan ddarparwr y gwasanaeth ac ymadael â'r driniaeth):

- 'Triniaeth wedi'i chwblhau – sylweddau problemus' - "Nid oes angen ymyrraeth triniaeth mwyach ar y cleient ac ym marn y gweithiwr achos nid yw'n defnyddio unrhyw un o'r sylweddau problemus a adroddwyd gan y cleient", a
- 'Triniaeth wedi'i chwblhau' – "Mae'r cleient wedi cyrraedd ei nod(au) fel y cytunwyd ar ddechrau'r driniaeth"

Mae'r diffiniadau hyn yn dangos bod cleient wedi ymgymryd â thriniaeth sy'n cynnwys un neu ragor o ddulliau trin ac wedi cwblhau'r holl rannau gofynnol yn llwyddiannus. Pan fo triniaeth wedi'i gwneud (boed yn llwyddiannus ai peidio) dylid cofnodi'r dulliau a ddefnyddiwyd. Ni ddylai fod yn bosibl i gleient gael rheswm



ymadael o gwblhau llwyddiannus heb unrhyw wybodaeth am driniaeth ynghlwm.

Mae yna 95,332 o atgyfeiriadau wedi'u cofnodi o fewn SMDS gyda rheswm diwedd cyswllt yn nodi cwblhau'n llwyddiannus. O'r rheiny, nid oes gan 18,344 (19%) ddata triniaeth wedi'u cofnodi (dim dyddiad cychwyn triniaeth, dull y driniaeth na dyddiad gorffen triniaeth), ac nid oedd gan 6,493 (6.8%) ddata asesu wedi'i gofnodi. Unwaith eto, cofnodwyd amrywiad daearyddol sylweddol, ac roedd hynny'n wir am y math o sylweddau, fel y dangosir yn Nhabl 5 a Thabl 6 yn y drefn honno:

**Tabl 5: Nifer a chanran y cyfnodau triniaeth lwyddiannus heb unrhyw ddata triniaeth fesul bwrdd iechyd**

Bwrdd Iechyd	'Cwblhau triniaeth yn llwyddiannus' heb unrhyw ddata triniaeth (n)	Canran y triniaethau a gwblhawyd gan BI (%)
BIPCF	3,354	39.2
BIPBC	5,457	25.1
BIPABM	1,592	18.1
BIPHDd	2,471	15.2
BIPCTM	2,098	14.7
BIPAB	2,763	14.2
BIAP	55	2

**Tabl 6: Nifer a chanran y cyfnodau 'triniaeth lwyddiannus' a gofnodwyd heb unrhyw ddata triniaeth, yn ôl math o sylweddau**

Categori sylweddau	Cwblhau triniaeth heb unrhyw ddata triniaeth	Canran (%)
Dim cofnod	3,968	61.1
Alcohol	10,919	20
Heroin, Methadon, Opiadau Eraill	1,837	12.3
Amffetaminau ac Ecstasi	253	11.3
Cyffuriau eraill	212	8.5
Canabis	827	8.2
Cocên a Crac Cocên	296	6.5



#### Problem Ansawdd Data 4: Cyfnodau o driniaeth gyda fframiau amser anghywir

Mae gan bob cyfnod o driniaeth a gofnodir o fewn SMDS gyfnod a ddiffinnir fel yr amser rhwng y dyddiad atgyfeirio a dyddiad diwedd y cyswllt. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhelir asesiadau a thriniaethau a chaiff unrhyw TOPau eu cwblhau. Gall y ffrâm amser hon amrywio'n fawr yn ôl math o sylwedd ac unigolyn, gydag ystod bosibl o un diwrnod i flynyddoedd lawer.

Cafodd cyfanswm o 259,140 o gyfnodau o driniaeth gyda dyddiad dechrau a dyddiad gorffen wedi'u cofnodi eu cynnwys yn yr astudiaeth hon. O'r rhain, gwelwyd bod gan 5,716 (2.3%) fframiau amser sy'n anghywir. Diffiniwyd cofnodion fel rhai sydd â ffrâm amser anghywir lle mae'r dyddiad gorffen cyswllt cyn y dyddiad atgyfeirio. Roedd amrywiad daearyddol sylweddol o ran cofnodi ffrâm amser anghywir fel y dangosir yn Nhabl 7.

**Tabl 7: Nifer a chanran y cyfnodau triniaeth yn ôl bwrdd iechyd a oedd â fframiau amser anghywir.**

Bwrdd Iechyd	Nifer (n)	Canran o gyfnodau BI (%)
BIPABM	782	2.6
BIPAB	468	1.1
BIPBC	1150	1.6
BIPCF	2246	6
BIPCTM	575	2.1
BIPHDD	313	1
BIPAP	70	0.9

#### Problem Ansawdd Data 5: Data Ethnigrwydd Coll

Cofnodwyd 298,845 o atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod astudio, ac roedd 37,371 (12.5%) o'r rhain â data ethnigrwydd coll (Tabl 8). Mae meysydd i gofnodi ethnigrwydd yn bresennol yn y tablau data atgyfeirio ac asesu. At ddibenion y dadansoddiad hwn, diffiniwyd cofnod ethnigrwydd coll fel cofnod heb unrhyw fewnbwn neu fewnbwn sy'n dangos nad oedd data wedi'i gofnodi er enghraifft 'Heb ei nodi' neu 'Anhysbys'

O'r atgyfeiriadau hynny a gofnodwyd, cyrhaeddodd 195,044 gyfnod asesu lle dylid cofnodi ethnigrwydd os na chafodd ei gasglu yn y cam atgyfeirio. Roedd 18,648 o asesiadau lle na chofnodwyd unrhyw ddata ethnigrwydd, gan gynrychioli 9.6% o'r holl asesiadau. Roedd amrywiad daearyddol sylweddol o ran cofnodi ethnigrwydd, fel y dangosir yn Nhabl 9.

**Tabl 8: Nifer yr atgyfeiriadau ac asesiadau yn ôl ethnigrwydd a gofnodwyd**

Grŵp Ethnigrwydd	Cofnodwyd wrth atgyfeirio (n)	Cofnodwyd wrth asesu (n)
Asiaidd	1,615	1,042
Du	1,459	904
Cymysg	2,068	1,379
Arall	466	260
Gwyn	255,866	172,811
<b>Coll</b>	<b>37,371</b>	<b>18,648</b>

**Tabl 9: Nifer a chanran y cyswllt atgyfeirio ac asesu lle nad oes unrhyw ethnigrwydd wedi'i gofnodi, yn ôl bwrdd iechyd.**

Bwrdd Iechyd	Nifer (n)	Canran o gysylltiadau BI (%)
BIPABM	4363	17.7
BIPAB	2267	6.7
BIPBC	1760	3.5
BIPCF	6793	27
BIPCTM	599	2.5
BIPHDd	1840	7.7
BIAP	46	0.8

## Goblygiadau ar gyfer ymchwil sy'n defnyddio'r data hyn

Mae darparu gwasanaethau triniaeth cynhwysfawr ac effeithiol o ansawdd uchel, ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn heriol ac yn gostus, ac mae buddsoddiad sylweddol a pharhaus yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol. Mae data cywir ac amserol sy'n rhoi manylion llwybr gofal cleifion a thystiolaeth o ganlyniadau yn hanfodol er mwyn deall arferion gorau ac mae'n golygu y gellir teilwra polisi a darpariaeth gwasanaethau i gael y canlyniadau cadarnhaol a'r effeithlonrwydd gorau posibl.

Mae dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau), a weithredir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu mesurau llinell sylfaen a safonedig ar gyfer gweithgarwch a pherfformiad ar draws gwasanaethau cymharol yn genedlaethol. Mae prosesau cadarn ar gyfer casglu ac adrodd data yn ofynnol er mwyn sefydlu sylfaen dystiolaeth



ddibynadwy mewn perthynas â DPAau dros amser.

Ochr yn ochr â hyn, gall ymchwil sy'n defnyddio'r SMDS arwain at, neu gael ei effeithio gan, ragfarn neu gasgliadau gwallus os nad yw'r ymchwilwyr yn ymwybodol o'r materion ansawdd data sy'n bodoli yn y set ddata. Bydd yr archwiliad ansawdd data hwn yn darparu canllaw pwysig i ymchwilwyr y dyfodol ynghylch y materion a nodwyd y dylid rhoi cyfrif amdanynt a bydd yn gweithredu fel cynnyrch etifeddol i ddefnyddwyr SAIL.

Nodwyd nifer o broblemau ansawdd data allweddol sy'n ymwneud â dulliau amhriodol, anghywir neu ddiffyg cofnodi dulliau triniaeth, cerrig milltir allweddol (dechrau triniaeth, rhoi'r gorau i driniaeth a chanlyniadau) a demograffeg sy'n effeithio ar gyfran sylweddol o'r rhai sy'n ymwneud â thriniaeth, gan gynnwys:

- Tystiolaeth o driniaeth lle mae'r rheswm ymadael yn dangos na chafodd unrhyw driniaeth ei darparu. Heb ailedrych ar bob cyfnod o driniaeth, ni ellir dod i unrhyw gasgliadau yn ddibynadwy o ran lle yn union y mae'r gwall/au wrth gofnodi.
- Tystiolaeth o gofnodi canlyniad triniaeth 'llwyddiannus' ac yna ail-atgyfeirio'r un diwrnod neu'r diwrnod canlynol. I glaf neu gleient sy'n mynd drwy'r system triniaeth camddefnyddio sylweddau, mae eglurder a thryloywder y broses yn bwysig, yn ogystal â pharhad gofal i ganiatáu triniaeth cyhyd ag y bo angen. Gall adroddiadau DPA hanesyddol fod yn annibynadwy wrth adlewyrchu cyfnodau o driniaeth sy'n cael eu cwblhau'n llwyddiannus.
- Tystiolaeth o 'gwblhau triniaeth yn llwyddiannus' lle nad oes triniaeth wedi'i chofnodi. Fel uchod, mae hyn yn adlewyrchu gwallau systematig wrth oradrodd am driniaeth a gwblhawyd yn llwyddiannus ac yn cyflwyno rhagfarn mewn cofnodion DPA ac mewn ymchwil sy'n defnyddio'r data hwn.
- Methiant gwasanaeth i adrodd ethnigrwydd fel mater o drefn ac yn gyson, gan ddefnyddio 'Ethnigrwydd heb ei ddatgan' (cod Z). Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys hil fel nodwedd warchoddedig. Mae hil yn cynnwys grwpiau ethnig a hiliol. Mae ansawdd data gwael sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd yn effeithio'n sylweddol ar ymchwil i asesu anghydraddoldebau iechyd wrth ddarparu triniaeth camddefnyddio sylweddau a thueddiadau dros amser.
- Tystiolaeth o ddyddiadau atgyfeirio, asesu a thrin anghywir ac anghyflawn. Mae yna wiriad dilysu o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru sy'n tynnu sylw at gofnodion gyda dyddiadau anghyson. Caiff y rhain eu hadrodd yn ôl i'r gwasanaethau pan fyddant yn cymeradwyo eu priod ffeiliau, ond bydd y cofnodion yn dal i gael eu lanlwytho gan nad yw'r rhain yn cael eu hystyried yn gamgymeriadau critigol. Gall y rheswm dros lawer o'r dyddiadau anghywir fod oherwydd bod gwasanaethau yn atgyfeirio unigolyn, ond mae'r dyddiad asesu/dyddiad trin yn parhau fel y data gwreiddiol gan yr asiantaeth atgyfeirio, ac mae'r dyddiad atgyfeirio yn cael ei ddiweddarau. Dylai asiantaethau fod yn cynnal eu hasesiad/triniaeth eu hunain, fel bod pob dyddiad yn gywir.



## Argymhellion

1. Rydym yn argymhell bod cynlluniau arferol ar gyfer gwella archwilio ac ansawdd data yn cael eu cychwyn sy'n cynnwys rheolwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, cynllunwyr a chomisiynwyr gan gynnwys y Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau i wella cyflawnrwydd, cywirdeb a chysondeb ledled Cymru. Er bod Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ac yn cynnal gwiriadau ac ymholiadau dilysu helaeth ar y data, mae amrywiad daearyddol a gwallau yn parhau.
2. Cyflwyno meysydd gorfodol i'w cwblhau a chael gwared ar godau diofyn (er enghraifft cod Z, 'ethnigrwydd heb ei ddatgan') yn y cam asesu a thriniaeth i ysgogi gwelliant mewn ansawdd data.
3. Mae angen i ddyluniadau astudiaethau ystyried cyfyngiadau presennol setiau data Camddefnyddio Sylweddau.
4. Ymchwil bellach i'r rhesymau dros amrywiadau daearyddol o ran ansawdd data a'r goblygiadau ar gyfer effeithiolrwydd triniaeth, llywio gwasanaethau a llwybrau triniaeth yng Nghymru.



## Cyfeiridau

1. Degenhardt, L. *et al.* The global burden of disease attributable to alcohol and drug use in 195 countries and territories, 1990–2016: a systematic analysis for the Global Burden of Disease Study 2016. *The Lancet Psychiatry* 5, 987–1012 (2018).
2. Health Data Research UK. Substance Misuse Dataset (SMDS). [Dataset - Health Data Research Innovation Gateway](#)
3. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Reducing the harm from illegal drugs. at <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2023/10/reducing-the-harm-from-illegal-drugs.pdf> (2023).
4. Llywodraeth EF. From harm to hope: A 10-year drugs plan to cut crime and save lives. Ar gael yn: [UK 10 year drug strategy](#)
5. Llywodraeth y DU. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Canlyniadau Gwell trwy Ddata Cysylltiedig (BOLD) - GOV.UK yn <https://www.gov.uk/government/publications/ministry-of-justice-better-outcomes-through-linked-data-bold/ministry-of-justice-better-outcomes-through-linked-data-bold#the-bold-programme>.
6. Thinks, B. Improving lives through linked data: Views from groups with complex needs Substance Misuse Pilot Audience summary report.



## Ymwadiad

Oherwydd natur sensitif y data, adolygir pob cais ymchwil i gael mynediad at ddata o fewn Banc Data SAIL gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) annibynnol. Mae'r broses hon yn cynnwys ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn ddefnydd priodol o'r data a'i bod er budd y cyhoedd. Mae'r IGRP yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff proffesiynol a rheoleiddiol, darparwyr data a'r cyhoedd.



**Better Outcomes through Linked Data**  
*Gwell canlyniadau drwy ddata cysylltiol*

© Hawlfraint Brenhinol 2025

Ychwanegu yr URLs o'r adrannod cyhoeddi yma. (Darganfod yr cysylltiadau trwy clicio yma: [Departments, agencies and public bodies - GOV.UK - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#))

Mae'r cyhoeddiad hon yn drwyddedig trwy'r termau yr Open Government License v3.0, heb law am ble nodir yr wahanol. I weld yr trwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle adnaboddwn unrhyw gwybodaeth hawlfraint trydydd-person, bydd rhaid i chi derbyn caniatad o'r unigolion sy'n dal yr hawlfraint.

**OGL**

## Partneriaid Cysylltiol

